# ASNEW

Gwasanaethau Eiriolaeth Gogledd Dwyrain Cymru
Advocacy Services North East Wales

## Darparu eiriolaeth annibynnol ar draws Sir y Fflint a Wrecsam

**Ydych chi'n chwilio am help i wneud yn siŵr bod eich llais yn cael ei glywed wrth drefnu gofal a chymorth?**

## Os mai YDW yw'r ateb, yna gall ASNEW helpu



**Swyddfa Ar Agor**
**Llun-Gwener**
**9:00am - 5:00pm**

## Sut i gysylltu


advocacy@asnew.org.uk

www.asnew.org.uk

01352 759332

Gwasanaethau Eiriolaeth Gogledd Ddwyrain Cymru
Cyf FF Suite 3, Tŷ Broncoed Ffordd Wrecsam,
Yr Wyddgrug
CH7 1HP



Registered Charity Number 1110143. Company Limited by Guarantee Number 04707548 Registered in England/Wales 2003

**Rydyn ni Yma i Chi:** Mae ein gwasanaeth yn ymwneud â'ch helpu i leisio barn.

**Gyda Beth Rydym yn Helpu:** Rydym yn helpu trwy ganolbwyntio ar y materion sy'n bwysig i chi. Gall yr amser rydyn ni'n ei dreulio yn eich helpu fod yn fyr, yn ganolig neu'n hir, yn dibynnu ar eich sefyllfa.

**Mae Eich Llais yn Bwysig:** Rydyn ni'n gwrando arnoch chi ac yn dilyn eich arweiniad. Chi sy'n rheoli.

**Rydym yn Eich Cymuned:** Mae ein tîm yma i'ch cefnogi. Rydym yn rhan o'ch cymuned ac yn barod i helpu.

**Rydym yn Trin Pawb â Pharch:** Rydym yn credu mewn trin pawb yn garedig ac yn deg. Mae eich oedran, anabledd, cefndir, ac anghenion yn bwysig i ni.

**Argaeledd cyswllt:** Gallwch gysylltu â ni yn Gymraeg neu Saesneg drwy alwadau, negeseuon testun neu e-bost. Mae gennym hefyd wasanaeth neges y tu allan i'n horiau arferol, y byddwn yn ymateb iddo ar y diwrnod gwaith nesaf.

**Gwneud yn Siŵr eich bod yn Deall:** Os oes angen cymorth ychwanegol arnoch i gyfathrebu, mae gennym yr offer a'r arbenigwyr i'ch cefnogi.

**Rydym Ni'n Dod Atoch Chi:** Gallwn gwrdd â chi mewn gwahanol leoedd, fel eich cartref, canolfan gymunedol, neu fan cyhoeddus. Rydym yn sicrhau bod popeth yn ddiogel i chi.

**Mae eich Preifatrwydd yn Bwysig:** Rydym yn cadw'r hyn a ddywedwch yn breifat, ond rydym hefyd yn esbonio pryd y gallai fod angen i ni siarad ag eraill i'ch cadw'n ddiogel.

**Ein Haddewid:** Ein nod yw rhoi'r cymorth a'r gefnogaeth orau y gallwn i chi. Rydym yn dilyn y rheolau a'r safonau i wneud yn siŵr eich bod yn cael y gofal gorau sydd ar gael.

**Rydym yn Gymwys:** Rydym yn dilyn y Siarter Eiriolaeth a'r Cod Ymarfer, ac mae gennym y Marc Perfformiad Ansawdd (QPM) ar gyfer Eiriolaeth.

**Rydym yma i'ch cefnogi, i wrando arnoch chi, ac i wneud yn siŵr eich bod yn cael eich clywed. Cysylltwch â ni heddiw a gadewch i ni weithio gyda'n gilydd i wneud eich bywyd yn well.**